



YSGOL I.D. HOOSON

Medi 7fed, 2021

GWYBODAETH BWYSIG I BAWB

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Croeso'n ôl wedi'r gwyliau. Gobeithio eich bod wedi mwynhau y gwyliau haf ac yn barod am flwyddyn brysur yn yr ysgol. Hoffwn ddiolch i bawb am eu cydweithrediad ar gychwyn y tymor newydd. Hoffwn hefyd ganmol y plant am y ffordd y maent wedi ymateb i'r trefniadau dychwelyd. Os nad ydych yn barod wedi gwneud, a fydddech cystal â gwneud eich hun yn ymwybodol o wybodaeth a gyflwynwyd ar y llythyr a ddyddwyd 15fed o Orffennaf, a aeth allan ar ddiwedd y tymor cyn i'r ysgol gau am yr haf. Mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig y byddwch fel rhieni/gofalwyr neu unrhyw un arall sydd gyda chyfrifoldeb i ddod a chasglu plant o'r ysgol angen bod yn ymwybodol ohono. Mae copi o'r llythyr ar gael ar wefan yr ysgol.(www.hooson.cymru)
Hoffwn gyflwyno ychydig o wybodaeth bwysig i chi ar gychwyn y tymor newydd

Iechyd & Diogelwch / Covid-19 - Rydym yn parhau gyda threfniadau iechyd a diogelwch dyddiol yn ein hymdrechion i leihau lefelau risg yn ymwneud a Covid-19. Mae rhain yn cynnwys staff yn gwisgo mygydau pan yn symud o amgylch yr adeilad, amseroedd egwyl cinio gwahanol i oedrannau gwahanol, annog golchi dwylo rheolaidd, lleihau cymysgu staff yn ddi-angen yn ogystal â pharhau i gadw pellter diogel o eraill. Fel rhieni / gofalwyr, gofynnwn i chi plis i barhau i wneud pob ymdrech posib i leihau unrhyw risg ar gampws yr ysgol. Yn ogystal ag annog pob rhiant/ofalwr i beidio aros ar safle'r ysgol/giatiau'r ysgol am fwy nag sydd angen wrth ddod a phlant i'r ysgol/eu casglu dylid hefyd parhau i wisgo gorchudd wyneb wrth ddanfôn a chasglu'r dysgwyr. Mae'r camau yma wedi ei cynnwys yng nghanllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru i ysgolion ar gyfer Medi.

Glanhau dwylo - Mae gennym offer glanhau dwylo yn yr ysgol. Os yw eich plentyn yn dymuno dod a hylif golchi dwylo ei hun, yna caniateir iddo ef/hi wneud hynny, ond gofynnwn i'r plant beidio rhannu y rhain gydag eraill.

Cyswllt gyda'r athrawon dosbarth:

Gallwch e-bostio'r athrawon dosbarth yn uniongyrchol os oes angen. Gallwch wneud hyn ar gyfer cyfathrebu negeseuon pwysig i'r athro dosbarth, e.e. newid amseroedd nosweithiau rhieni a.y.y.b. Oherwydd rhesymau amddiffyn data, ni ddylid defnyddio'r e-bost i gyfnewid gwybodaeth gyfrinachol. Isod gwelir cyfeiriad e-bost pob athro. Ni ddylid defnyddio'r system e-bost i wneud cwyn os gwelwch yn dda.

Miss Amy Morris MorrisA21@hwmail.net

Miss Manon Davies DaviesM125@hwmbail.net

Miss Delyth Dempsey DempseyD1@hwmail.net

Miss Bethan Morris MorrisB27@hwmail.net

Mr Dyfan Jones JonesD106@hwmail.net

Mrs Manon Williams WilliamsM1666@hwbmail.net

Miss Eiliw Evans EvansE42@hwbmail.net

Miss Catrin Rowlands RowlandsC193@hwbcymru.net

Mr Dylan Jones JonesD2133@hwbcymru.net

Mr Sion Owen OwenS19@hwbmail.net

Mr Sion Owen inclusion@hwbmail.net

Cofiwch gysylltu â'r ysgol os ydych yn ansicr o unrhyw beth. Rydym yma i helpu ac rydym wastad yn awyddus i drafod unrhyw faterion a datrys unrhyw broblem er llês y plant.

Yn y lle cyntaf, os oes gennych bryder ynghylch eich plentyn (addysg/ymddygiad ayyb) - cysylltwch â'r **athro/athrawes dosbarth**. Efallai y cewch eich cyfeirio at aelod arall o staff yr ysgol.

Os nad ydych yn hapus gyda'r ymateb - dylech chi gysylltu gyda **Mrs Manon Williams** (Pennaeth Cyfnod Allweddol 2), **Mrs Manon Davies** (Pennaeth Cyfnod Sylfaen) neu **Mr Dyfan Jones** (Dirprwy Bennaeth).

Os ydych yn parhau i fod yn anfodlon gyda'r ymateb, cysylltwch â **Mr Rhodri Jones** (Pennaeth)

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, dylech gysylltu â **Mr Geraint Phillips**, Cadeirydd Llywodraethwyr yr Ysgol.

Athrawon gyda chyfrifoldebau penodol:

Cydgysylltydd Llês ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol yw **Mr Sion Owen**. Mae Mr Owen ar gael i drafod pryderon sydd yn ymwneud a datblygiad a llês eich plentyn, ac i drafod unrhyw gefnogaeth ychwanegol y gallai'r ysgol ei gynnig i'ch plentyn os oes angen. Bydd angen trefnu amser cyfleus ar gyfer unrhyw apwyntiad neu drafodaeth gyda Mr Owen, gan y bydd yn gyfrifol am ddsbarth blwyddyn 3 a 4 am y mwyafswm o'i amserlen wythnosol.

Bydd **Miss Manon Davies a Mr Sion Owen** yn chwarae rôl bwysig wrth fonitro presenoldeb a phrydlondeb, ac yn cyd-weithio gyda Swyddog Llês yr Awdurdod.

Absenoldebau:

Mae presenoldeb yn flaenoriaeth barhaus i'r ysgol. Mae'n allweddol fod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn ddyddiol. Gofynnir i chi gysylltu â'r ysgol yn syth ar ddiwrnod cyntaf absenoldeb eich plentyn. **Gofynnwn i chi wneud hyn cyn 9.30 os gwelwch yn dda.** Byddwn yn monitro presenoldeb a phrydlondeb ac mewn cyswllt gyda chi os fydd ffigyrau presenoldeb yn disgyn i lefel annerbyniol

Bydd y Pennaeth yn penderfynu os bydd yr ysgol yn awdurdodi ceisiadau am absenoldeb yn ystod y tymor. Bydd yn ddibynnol ar ffigyrau presenoldeb presennol y plentyn yn ogystal â ffigyrau presenoldeb blaenorol. Dylid gwneud unrhyw geisiadau am gael absenoldeb o'r ysgol drwy lythyr i'r Pennaeth. Ni fydd ceisiadau am fwy na 5 diwrnod yn cael ei hawdurdodi. Rydym yn eich annog i wneud pop ymdrech i osgoi trefnu gwyliau yn ystod y tymor ysgol.

Cyrraedd / Gadael ysgol / Parcio - Byddwch wedi sylwi ein bod wedi gwneud rhai newidiadau i'n hamserlen ddyddiol. Mae diwedd y dydd yn gyfnod prysur iawn, ac felly mae amseroedd gorffen a chasglu yn wahanol i'r cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. **Gofynnwn i bob rhiant/gofalwr i sicrhau nad ydynt yn cyrraedd yr ysgol dim mwy na 5 munud cyn amser cychwyn a gorffen eich plentyn.** Gweler amseroedd y sesiynau, sydd wedi ei rhannu efo chi yn flaenorol. A fyddech cystal â rhannu'r wybodaeth gydag unrhyw berthnasau neu ofalwyr sydd â chyfrifoldeb i ddod a chasglu eich plentyn o'r ysgol. **Sylwer fod sesiwn y bore yn cychwyn i blant oed derbyn hyd at flwyddyn 6 am 8:55.**

8:55 - Cyfnod Sylfaen (Derbyn/Bl1 &2) CA2 (Bl. 3/4/5/6) cychwyn

15:00 - Cyfnod Sylfaen (Derbyn/Bl.1 &2) gorffen

15:15 - CA2 (Bl. 3/4/5/6) gorffen

9:00 - 11:30 Meithrin bore cychwyn/gorffen / **12:30 - 15:00** - Meithrin p'nawn - cychwyn/gorffen

Casglu plant o'r buarth - Erbyn hyn dylai'r rhan fwyaf ohonoch fod yn gyfarwydd gyda'r trefniadau o gasglu eich plentyn o fuarth yr ysgol. Oherwydd rhesymau diogelwch, ac yn ein hymdrechion i leihau y niferoedd sydd ar y buarth yn ystod y cyfnod prysur hwn, hoffwn eich atgoffa mai **dim ond UN oedolyn/rhiant/gofalwr a ddylai ddod i gasglu'r plentyn o'r buarth.** Unwaith eto, gofynnwn i bawb ymadael a'r buarth yn syth ar ôl casglu'r plentyn, gan ddilyn y llwybr un ffordd. Dylai fod eich plentyn yn aros gyda chi ar ôl cael ei ryddhau gan yr athro/awes, gan osgoi mynd i chwarae efo plant eraill, yn arbennig plant o swigod grwpiau oedran gwahanol. Gofynnir i bawb barchu rheolau ymbellhau cymdeithasol, gan gadw pellter diogel oddi wrth eraill pan yn casglu plant.

Salwch / Symptomau - Os yw eich plentyn yn teimlo yn sâl, neu yn dangos symptomau Covid-19, yna ni ddylai ef/hi fynychu'r ysgol. Dylai ef/hi aros adref hyd nes y mae ef/hi yn teimlo yn well. Os yw eich plentyn, neu unrhyw aelod arall o'r teulu yn dangos symptomau o Covid-19, dylid gwneud trefniadau i gael prawf. Bydd angen i chi hysbysu'r ysgol os yw'r camau hyn wedi ei gymryd.

Dysgu o bell - Yn ystod y cyfnod clo, bu'r plant yn gwneud defnydd o gyfri llwyfan dysgu HWB personol ar lein i'w cefnogi gyda'r dysgu o adref. Bydd eich plentyn yn parhau i wneud defnydd o'r adnodd, ac yn achlysurol bydd yr athro dosbarth yn gofyn i'r plant gwblhau gwaith cartref drwy ddefnydd o'r cyfrif HWB. Gan ein bod yn parhau i fod mewn cyfnod bregus ac ansicr iawn o ran Covid-19, mae angen i ni fod yn barod i ymateb i sefyllfa ble y bydd angen cau yr ysgol ar gyfer grwpiau penodol o blant. Os byddwn yn wynebu sefyllfa o'r fath, yna bydd yr athro dosbarth yn cydlynu'r dysgu drwy gyfri HWB y plentyn. Mae'r athrawon yn barod wedi bod yn ymgysylltu'r plant gyda'i cyfri HWB yn y dosbarth, ac felly y gobaith yw y bydd y plant yn gallu troi ato os yw sefyllfa yn codi.

Cinio ysgol - Mae cinio ysgol ar gael, ac yn cael ei weini yn neuadd yr ysgol ar amseroedd gwahanol ar gyfer grwpiau oed gwahanol. **Bydd angen dewis cinio ysgol ymlaen llaw gan ddefnyddio ParentPay, gan gynnwys plant sydd yn derbyn prydau ysgol am ddim.** Nid yw'r ysgol bellach yn gallu archebu eu cinio, rhaid ei wneud trwy eu cyfrif ParentPay cyn 8am ar y bore neu gallwch archebu hyd at 6 wythnos ymlaen llaw. **Os nad yw rhieni wedi archebu cinio ar gyfer eu plentyn, bydd yr ysgol yn cysylltu â chi i ddod â phecyn bwyd i mewn.**

Os nad ydych wedi derbyn manylion mewngofnodi eich plentyn ar gyfer ParentPay, cysylltwch â swyddfa'r ysgol trwy e-bostio mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

Y Gymraeg - Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o fywyd yr ysgol hon, ac mae'n rhoi llawer iawn o bleser i ni fel ysgol yn gweld y disgyblion o oed y meithrin i flwyddyn 6 yn datblygu eu medrau yn yr iaith Gymraeg. Cymraeg yw iaith yr ysgol, ac felly rydym yn y plant i wneud defnydd o'r iaith ar bob cyfle posib. Mae hyn yn wir wrth gwrs oddi mewn ac oddi allan i furiau'r ysgol. Rydym wrth ein bodd yn clywed y plant siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg, a byddwn yn gwneud defnydd o systemau gwobrwyo i ganmol ac i annog y plant ymhellach. Defnyddio'r Gymraeg i gyfathrebu yn yr ysgol yw yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan y plant yn yr ysgol hon, ac felly a fydddech cystal â hybu'r neges hon gyda'ch plant fel rhieni / ofalwyr. Drwy ymarfer a gwneud defnydd cyson bydd eu medrau dwyieithrwydd yn datblygu.

Cŵn - Hoffwn eich atgoffa, oherwydd resymau iechyd a diogelwch, nad oes caniatad i gŵn ddod ar gampws yr ysgol. Diolch am eich cyd-weithrediad.

Casglu plant yn gynnar o'r ysgol - Hoffwn annog pob rhiant / ofalwr i wneud pob ymdrech i geisio osgoi gwneud hyn os nad oes gwir angen ac oni bai fod argyfwng. Mae'n gallu amharu ar addysg y plentyn, ac yn achosi anghyfleustra di-angen. Diolch am eich cydweithrediad.

Cyfathrebu - Cofiwch gadw golwg allan ar wefan yr ysgol, Schoop, safle Trydar yr ysgol, yn ogystal â App yr ysgol ar gyfer gwybodaeth a newyddion allweddol.

Byddem yn gwerthfawrogi a byddai o gymorth mawr pe byddai rhieni/gofalwyr yn sicrhau fod y wybodaeth uchod yn cael ei gyfathrebu gydag unrhyw oedolion/berson sydd gyda chyfrifoldeb am ddod a'r plant i'r ysgol neu gasglu'r plant o'r ysgol. Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Diolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth barhaus

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones

Pennaeth